Sioe
ABERYSTWYTH and Ceredigion County Show
a Sir Ceredigion

Michaela Devereux
Fronfraith Fach
Comins Coch
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BH
☎ 07880 683861

Cyfleoedd Nawdd a Hysbysebu 2018

Aeth blwyddyn brysur arall heibio, ac mae'r hydref wedi rhoi amser i ni werthuso Sioe 2017. Llynedd, am y tro cyntaf gwnaethom gynnal Sioe Beltex Cenedlaethol Cymru a chynhaliwyd dosbarthiadau newydd ar gyfer bridiau prin yn yr adran ddefaid. Roedd cynnydd amlwg yn gystadleuwyr yn yr adran gwartheg ac roedd y cystadlaethau newydd yn yr adran cŵn anwes yn llwyddiant a chafodd pawb hwyl.

Mae cynlluniau ar droed ar gyfer Sioe 2018, ac yn ychwanegol i'r cystadlaethau ac atyniadau arferol mae'r Pwyllgor yn gweithio'n galed i ehangu ar beth sydd ar gael i weld a gwneud ar ddiwrnod y sioe. Yr ydym yn falch i gyhoeddi bydd Sioe Beltex Cenedlaethol Cymru yn dychwelyd eto eleni, ac fel y llynedd rydym yn gobeithio parhau i ddenu cystadleuwyr newydd ym mhob adran. Yn ogystal â hyn rydym yn edrych ymlaen at gyhoeddi ein cynlluniau ar gyfer adloniant gyda'r nos ac unwaith mae'r trefniadau wedi'u cwblhau byddwn yn cyhoeddi'r manylion ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol.

Cynhelir y Sioe, sydd wedi hen ennill ei phlwyf fel sioe sir swyddogol, ddydd Sadwrn 9 Mehefin 2018, a gyda dros £10,000 yn cael ei gynnig mewn gwobrau, mae'n denu nifer o gystadleuwyr ac ymwelwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Trwy gefnogi'r Sioe bydd eich nawdd yn eich galluogi i gysylltu'n uniongyrchol ag arddangoswyr ac ymwelwyr o bob cwr o'r rhanbarth a thu hwnt.

Gellid teilwra pecynnau nawdd at eich anghenion a'ch cyllideb ac amgaeaf ychydig o enghreifftiau o'r pecynnau sydd ar gael. Fel y llynedd, bydd gan noddwyr pecyn arian, aur a phlatinwm gyfle i hysbysu AM DDIM yn rhaglen y Sioe a hefyd cyhoeddusrwydd ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol a'n wefan. Mae gan y Sioe 8 brif adran: Merlod a Cheffylau, Gwartheg, Defaid, Dofednod, Cŵn, Hen Beiriannau, Cynnyrch a Chneifio Cyflym. Gall noddwyr platinwm ddewis noddi un o'r prif adrannau hyn neu atyniad, a gall noddwyr pecyn aur noddi brid o fewn yr adrannau hyn.

Yn naturiol, byddwn yn cadw'r dewis cyntaf i fusnesau ac unigolion a gefnogodd ni yn 2017 a gweler ynghlwm manylion ein dosbarthiadau/adrannau sydd ar gael. Wrth ymateb medrwch nodi pa un o'r dosbarthiadau/adrannau hyn hoffech noddi ac yna, gallwn wirio os ydynt dal ar gael.

I drafod y mater ymhellach a heb unrhyw rwymedigaeth, cysylltwch â'r Cydgysylltydd Noddi, Delor Harvey, Abel Gur, Lon Glanfred, Llandre, Bow St, Ceredigion, SY24 5BY ☎ 01970 820418 ar ôl 6yh, e-bost **sponsor.abershow@hotmail.co.uk** neu cysylltwch yn uniongyrchol gyda minnau.

Diolch i chi ymlaen llaw am ddangos diddordeb yn Sioe Aberystwyth a Sir Cheredigion a gobeithiwn eich gweld chi ar y diwrnod, lle bydd croeso cynnes i chi ym mhafiliwn y noddwyr.

Yn gywir

M. Devereux

Michaela Devereux
Cadeirydd

Enghreifftiau o becynnau nawdd sydd ar gael:	**Hysbyseb**	**£100**	**£150**	**£400**
Ar gael i Noddwyr:	**£70**	**Arian**	**Aur**	**Platinwm**
Bathodyn noddwr (sy'n gwarantu mynediad AM DDIM i'r sioe)		2	2	2
Tocynnau mynediad ychwanegol		2	3	5
Baneri		2	3	Diderfyn
Copi o raglen y Sioe (wrth ddangos bathodyn noddwr)		1	1	1
Defnydd o bafiliwn y noddwyr a osodir ar faes y Sioe		√	√	√
Hysbyseb ddu a gwyn yn rhaglen y sioe wedi ei ddarparu gan eich sefydliad			√	√
Logo'r cwmni a dolen ar wefan y Sioe	¼ tudalen	½ tudalen	tudalen lawn	tudalen lawn
Cyhoeddiadau gan y sylwebyddion dros yr uchelseinydd gyda'r testun wedi'i gytuno o flaen llaw			√	√
Cydnabyddiaeth ar y cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook a Twitter			√	√
Mynediad i'r cylch cystadlu yn eich priod adran (lle'n addas)			√	√
Cyfle am ffotograff cyhoeddusrwydd				
Hywryddo yn y datganiad swyddogol i'r wasg cyn ac ar ôl y digwyddiad				√
				√
Anfonwch yr hysbyseb atom ar ffurf PDF neu JPEG erbyn 20 Ebrill 2018 at sponsor.abershow@hotmail.co.uk				